**Straeon Mudo Caerdydd**

# Daoud

Mae Daoud yn 67 oed (2015).

Daw teulu Daoud o Yemen yn wreiddiol; ond cafodd ei eni yng Nghaerdydd a'i fagu yn Butetown. "Roedd pobl o bedwar ban byd yno, o bob gwlad, yn cyd-dynnu heb unrhyw broblemau". Roedd ei fam o Gwm Rhymni; gadawodd gartref yn 14 oed i weithio yn yr Ysbyty Brenhinol. Daeth ei dad i Gaerdydd yn y 1930au.

Mae'n cadw cysylltiad â'i ffrindiau dramor dros y ffôn.

Doedd bywyd a thyfu i fyny ddim yn well yng Nghaerdydd o'i gymharu ag Yemen, ond roedd yn haws am fod y wlad yn gyfoethocach.

Roedd Daoud tua 10 oed pan aeth i Yemen am y tro cyntaf ar ei ben ei hun: "Heb mam a dad, ac arhosais yno am ddwy flynedd.

"Y rheswm ddaeth dad i Gaerdydd oedd i ennill bywoliaeth. Roedd angen iddo weithio, yn Yemen doedd dim gwaith a daeth i Gaerdydd i gael bywyd gwell."

"Roedd dad yn gogydd ac agorodd fwyty. Gwerthodd fwyd Arabaidd. Doedd dim llawer o fwytai tramor bryd hynny".

Roedd ei deulu'n byw uwch bwyty ei dad.

Byddai Daoud a'i frodyr a'i chwiorydd yn helpu yn y bwyty  pan oedden nhw'n hŷn.

"Yn Butetown roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn forwyr ar longau a bydden nhw'n dod ar longau o dramor".

Mae gan Daoud bum brawd a phum chwaer; a 14 o frodyr a chwiorydd wedi'u mabwysiadu. "Bydden ni'n mynd i'r gwely un noson a byddai rhywun newydd yno gyda ni erbyn y bore – rhywun cwbl ddieithr!"

"Fel Mwslim dwi ddim yn bwyta porc nac unrhyw beth o fochyn. Rydyn ni'n hoffi cig oen. Rydyn ni'n dathlu gwyliau Yemen yma hefyd, felly dydyn ni ddim yn methu'r lle." Mae'r gwyliau yn Yemen yn grefyddol yn bennaf. "Rydyn ni'n cadw'r traddodiadau Islamaidd ac un traddodiad mawr yw mis Ramadan pan fyddwn ni'n ymprydio o'r wawr i'r machlud ac yna'n bwyta unrhyw beth hoffen ni. Felly Ramadan yw'r adeg pan ddaw pawb at ei gilydd am ein bod ni'n rhannu ein bwyd ac ati."

Yn y pentrefi yn Yemen "doedd dim ceir, beiciau, trydan, na dŵr tap. Roedd y merched yn nôl y dŵr o'r ffynnon."

"Doedd dim awyrennau bryd hynny, roedd hi'n ddrud iawn teithio mewn awyren". Cymerodd bythefnos i Daoud deithio ar long o Lundain i Aden.

Heddiw mae teulu Daoud ymhobman - UDA, Malta a rhannau eraill o'r DU.

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI
heritage treftadaeth
Cardiff Story Museum
Amgueddfa Stori Caerdydd
Happy Together - Learning for Life
TON-YR-YWEN
Dysgu Hapus - Dysgu Byw